Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

Canllaw hwylus i hawlfraint a metadata



Gwers 1:

# Hawlfraint - Bod yn ymwybodol o'ch hawliau digidol!

## Trosolwg

# Canllaw hwylus i hawlfraint a metadata

Mae'r cynlluniau gwersi hyn yn darparu gweithgareddau cam wrth gam i arwain disgyblion drwy'r ystyriaethau a'r penderfyniadau y mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud cyn cyhoeddi delwedd, fideo neu recordiad sain ar lein. Mae'r gwersi'n dechrau yn syml, gan osgoi materion trwyddedu cymhleth, yna cyflwynir elfennau mwy cymhleth.

Rydym wedi cynllunio'r 6 gwers hyn i helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau digidol yn y meysydd a amlinellir yn y **Fframwaith Cymhwysedd Digidol**, gan ganolbwyntio'n benodol ar hawlfraint a metadata. Ar ddechrau pob cynllun gwers rydym yn nodi **Llinynnau ac Elfennau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol** sy'n cael eu cwmpasu.

**Mae gwersi 1-3** wedi'u hanelu at Gyfnod Allweddol 2 ac maen nhw'n helpu disgyblion i gael dealltwriaeth sylfaenol o fetadata a hawlfraint.

**Mae gwersi 4-6** wedi'i hanelu at Gyfnod Allweddol 3 ac yn edrych ar rôl hawlfraint wrth ddefnyddio gwaith creadigol pobl eraill ac wrth ddefnyddio ffotograffau o bobl. Gall rhywfaint o'r wybodaeth yng ngwersi 4 - 6 fod yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 hefyd.

## Cyn i chi ddechrau

- Mae Casgliad y Werin Cymru yn wefan llawn ffotograffau, dogfennau, fideos a straeon diddorol am hanes, diwylliant a phobl Cymru
- I gael gwybodaeth am hyn ewch i'r adran Blwch Offer i Athrawon sy'n dangos sut i gofrestru a sut y gall disgyblion ddefnyddio'r wefan i wella eu sgiliau cymhwysedd digidol **www.casgliadywerin.cymru/addysg/digidol**
- Mae'r sgiliau a ddatblygir wrth greu cyfrif ac uwchlwytho eitemau i wefan Casgliad y Werin Cymru yn cyfateb yn fanwl â llawer o ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Dysgwch sut i uwchlwytho eitemau a chreu casgliadau gan ddefnyddio ein canllawiau hawdd eu dilyn i ddefnyddwyr **www.casgliadywerin.cymru/content/y-ganolfan-gymorth**

## Gwers 1

# Hawlfraint - Bod yn ymwybodol o'ch hawliau digidol!

**Amcan y Wers:** Deall bod cyfraith hawlfraint yn bodoli sy'n diogelu gwaith creadigol

**Fframwaith Cymhwysedd Digidol**
*Cyfnod Allweddol 2*
*Dinasyddiaeth: 1.3 Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth*

# Negeseuon Allweddol

- © Dyma'r symbol hawlfraint. Mae'n dangos bod rhywbeth wedi'i ddiogelu gan gyfraith hawlfraint
- Mae hawlfraint yn diogelu pob gwaith creadigol ac yn atal eraill rhag ei ddefnyddio heb ganiatâd y sawl a greodd y gwaith
- Mae hawlfraint yn diogelu'r mathau hyn o waith: darluniau, paentiadau, ysgrifennu, cerddoriaeth, drama, ffotograffau, ffilmiau, teledu a chynnwys y we
- Mae hawlfraint yn atal pobl rhag copïo eich gwaith; dosbarthu copïau ohono boed am ddim neu am dâl; rhentu neu roi benthyg copïau o'ch gwaith; perfformio, dangos neu chwarae eich gwaith yn gyhoeddus heb eich caniatâd
- Mae eich gwaith wedi ei ddiogelu gan hawlfraint y foment y caiff ei greu, p'un a ydych yn rhoi'r symbol hawlfraint arno neu beidio

**Gwybodaeth Ychwanegol**

- Mae dwy ddogfen ychwanegol sy'n cefnogi'r wers hon; **Y Symbol Hawlfraint** a **Diffiniad o Hawlfraint**. Gallwch ddod o hyd i'r rhain ar ddiwedd y wers hon, neu eu lawrlwytho o'r Blwch Offer i Athrawon ar wefan Casgliad y Werin Cymru
- Mae gwybodaeth fanylach ar hawlfraint i'w gweld yng ngwersi 4 a 5. Mae'r gwersi hyn yn edrych ar rôl hawlfraint wrth ddefnyddio gwaith pobl eraill ac wrth ddefnyddio ffotograffau o bobl. Efallai y bydd peth o'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 hefyd
- Bydd y wers hon yn para tuag 1.5 awr, ond gallai gymryd mwy o amser os bydd y disgyblion yn awyddus i dreulio mwy o amser ar eu darluniau a'u poster

## Tasg 1

Dangoswch y symbol hawlfraint i'r disgyblion a gofynnwch a ydyn nhw'n gwybod beth yw ei ystyr. Esboniwch mai symbol sy'n dangos bod rhywbeth wedi'i ddiogelu gan gyfraith hawlfraint ydyw.

Mewn parau neu grwpiau bach gofynnwch i'r disgyblion chwilio am y term hawlfraint ar lein, yna egluro ei ystyr i'r dosbarth. Ceir diffiniad da yma: **https://www.gov.uk/copyright/overview**

Gellir rhannu'r ddogfen Diffiniad o Hawlfraint yn y dosbarth ar ôl y dasg hon.

**Esboniwch fod hawlfraint yn:**

- Diogelu pob math o waith creadigol ac yn atal eraill rhag ei ddefnyddio heb ganiatâd y sawl a greodd y gwaith
- Diogelu y mathau hyn o waith: darluniau, paentiadau, ysgrifennu, cerddoriaeth, drama, ffotograffau, ffilmiau, teledu a chynnwys y we
- Atal pobl rhag copïo eich gwaith; dosbarthu copïau ohono boed am ddim neu am dâl; rhentu neu fenthyca copïau o'ch gwaith; perfformio, dangos neu chwarae eich gwaith yn gyhoeddus heb eich caniatâd
- Mae eich gwaith wedi ei ddiogelu gan hawlfraint y foment y caiff ei greu, p'un a ydych yn rhoi'r symbol hawlfraint arno neu beidio

## Tasg 2

Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r wybodaeth hon i greu poster sy'n egluro pa fath o eitemau sy'n cael eu diogelu gan gyfraith hawlfraint. Rhowch y posteri hyn i fyny yn yr ystafell ddosbarth a chyfeiriwch atynt pryd bynnag y bydd angen.

Gellir defnyddio'r poster hwn hefyd i asesu bod pob disgybl yn deall pa fath o waith sy'n cael ei ddiogelu gan gyfraith hawlfraint.

## Tasg 3

Gofynnwch i'r disgyblion wneud llun cyflym o'u hoff le yn yr ardal. Rhowch derfyn amser byr er mwyn creu'r ddelwedd. Gofynnwch iddyn nhw roi'r holl ddelweddau ar fwrdd a'u rhannu'n 4 grŵp.

**Rhannwch eich dosbarth yn bedwar grŵp a rhowch un o'r sefyllfaoedd canlynol i bob grŵp:**

- Mae cwmni twristiaeth lleol eisiau defnyddio eich delweddau mewn ymgyrch i ddangos cymaint gwell yw tref gyfagos na'ch tref chi
- Mae cwmni lleol eisiau defnyddio eich delweddau i wneud cardiau post i'w gwerthu. Maen nhw eisiau cadw'r elw
- Mae'r cyngor lleol eisiau defnyddio eich delweddau i hyrwyddo eich tref
- Mae cwmni lleol eisiau defnyddio eich delweddau i wneud cardiau post i'w gwerthu. Bydd 100% o'r elw yn mynd i elusen

Gofynnwch i'r disgyblion gynllunio sut y bydden nhw'n ymateb i'r cwmnïau hyn drwy egluro'r adran briodol o'r gyfraith hawlfraint. Gofynnwch iddyn nhw benderfynu a fyddan nhw'n caniatáu i bob cwmni ddefnyddio eu delweddau.

Cadwch y delweddau o'r dasg hon gan y bydd eu hangen arnoch yng ngwers 2. Trafodwch bob enghraifft gan grynhoi drwy gyfeirio at bwyntiau'n ymwneud â phob achos. Crynhowch beth yw hawlfraint, pa fath o waith mae'n ei ddiogelu a sut y gall atal pobl rhag defnyddio gwaith creadigol heb ganiatâd.

## Tasg 4

Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r cwis rhestr chwarae Hwb hwn i brofi eu gwybodaeth.

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

# Symbol Hawlfraint

©

# Diffiniad Hawlfraint

- **Mae hawlfraint yn diogelu eich gwaith ac yn atal eraill rhag ei ddefnyddio heb ganiatâd**
- **Mae eich gwaith wedi'i ddiogelu dan hawlfraint yn awtomatig – does dim rhaid gwneud cais neu dalu costau. Does dim rhestr o weithiau dan hawlfraint yn y DU.**
- **Gallwch chi roi'r symbol hawlfraint ©, eich enw a'r flwyddyn greu ar eich gwaith. Nid yw hyn yn gwneud y gwaith yn fwy neu llai diogel.**
- **Mae hawlfraint yn diogelu: darluniau, paentiadau, rhyddiaith, cerddoriaeth, drama, ffotograffau, ffilmiau, rhaglenni teledu a chynnwys gwefannau.**

**www.gov.uk/copyright/overview**